

## Eisteddfod yr Urdd – 2018

### Cystadleuaeth Prif Seremoni Defod Y Coroni Bl.10 a dan 25 oed (395)

---

BEIRNIADAETH CATRIN BEARD A LLEUCU ROBERTS

*Rhaid i ni nodi'n gyffredinol ein bod wedi ein calonogi'n fawr iawn gan safon yr iaith yn y gystadleuaeth hon. Iaith rywiog, gywir yw'r deunydd sylfaenol sy'n rhaid i bob awdur ei gael er mwyn gallu adeiladu ei stori, a brafyw gallu dweud fod pob un o'r ymgeiswyr eleni yn meddu ar adnoddau ieithyddol cadarn.*

*Martha*

Stori dynes sy'n alcoholig am nad yw'n gallu cael plant yw hon. Mae'n dychmygu ei bod hi'n cipio plentyn. Dyma sefyllfa sy'n cynnig llawer iawn o ddrama, ond efallai y byddai wedi bod yn well canolbwyntio ar un agwedd yn hytrach na sawl un fel sydd yma – mae digon yma i lenwi nofel mewn gwirionedd. Gallai canolbwyntio ar lai, ac egluro'r stori'n fwy cynnil fod yn fantais. Weithiau, does dim angen ailadrodd – pan fo rhywun yn gwybod y cefndir er enghraifft, mae posib cyfleu wedyn drwy awgrymu. Bwriodd *Martha* iddi gan milltir yr awr, heb roi cyfle i'r stori ddatblygu yn ei phwysau, ond mae safon yr iaith yn uchel a gall ddarlunio cyflwr meddwl ei chymeriadau'n dda.